Bangor University Library & Archives

RefWorks

Canllaw Write-N-Cite 4

Mae Write-n-Cite yn rhaglen sy'n caniatáu i ddefnyddwyr redeg fersiwn byrrach o Refworks yn Microsoft Word. Gellwch fynd at eich cyfeiriadau yn ôl ffolder (neu is-ffolder), gwneud chwiliad cyflym neu chwilio trwy'r holl gyfeiriadau yn ôl awdur, teitl neu flwyddyn.

Gellwch ddefnyddio Write-N-Cite i osod cyfeiriadau mewn testun trwy glicio unwaith a gwylio eich papur yn fformatio'n syth gan gynnwys cyfeiriadau yng nghorff y testun, troednodiadau a'r llyfryddiaeth. Mae'r rhaglen yn gosod tab RefWorks yn y rhuban MS Word neu gallwch fynd ato o'r tab References yn Microsoft Word.

Tîm Cymorth Academaidd

Awst 2014

Contents

1. **Gosod Write-N-Cite**
2. **Mewnosod Cyfeiriadau a Chreu Llyfryddiaethau**
3. **Cysylltiadau gwe defnyddiol, tiwtorialau a chymorth**

1. Gosod Write-N-Cite

Er mwyn gosod Write-N-Cite - WNC4 bydd yn rhaid darganfod gyntaf a oes gennych gyfrifiadur 64 bit neu 32 bit. Er mwyn gwybod pa un, gwnewch y canlynol:

- Cliciwch ar y botwm Start ac yna **DE**-gliciwch ar 'Computer'.



O'r gwymplen dewiswch 'properties'.

- Pan fyddwch wedi gweld pa fath o gyfrifiadur sydd gennych:
- Ewch i Refworks, cliciwch ar y tab Tools, a dewiswch Write-N-Cite.
- Cliciwch i lawrlwytho'r fersiwn perthnasol o WNC4



Gallwch ddewis gwneud copi o'r cod hir - bydd angen i chi allu pastio'r cod hwn i sgrin mewngofnodi WNC pan fyddwch wedi gosod WNC4.

Os yw'n well gennych, gallwch fynd yn ôl i mewn i Refworks eto, clicio eto ar y tab Tools a dewis WNC - bydd y cod yn dal ar gael.

- Cliciwch ar 'Save File'.
- Bydd y ffeil yn llwytho i lawr ar eich bwrdd gwaith, lle gallwch ddod o hyd iddo a chlicio arno (wnc4inst.exe).
- Gosodwch y ffeil: cliciwch ar Run ac yna dilynwch y camau gosod.

Agorwch Word, a chwiliwch am dab ar dop y sgrin o'r enw Proquest



- Mewngofnodwch i'ch cyfrif RefWorks trwy glicio ar y botwm mewngofnodi ar y Rhuban.



- Mewngofnodwch gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr Prifysgol Bangor a'ch cyfrinair a'ch cod mewngofnodi.



- Mae'r gorchmynion rhuban i gyd yn weithredol yn awr

Er mwyn gosod **Write-N-Cite 4 ar Mac** defnyddiwch y cyswllt canlynol i'r tiwtorial

http://www.youtube.com/watch?v=kZSpx9Q5OV8

2. Mewnosod Cyfeiriadau a Chreu Llyfryddiaethau

Pan fyddwch yn cyrraedd y man yn eich traethawd lle rydych eisiau mewnosod cyfeiriad cliciwch ar y botwm '**insert citation'** ar y rhuban ac yna dewiswch 'new citation'.

Mae ffenest newydd yn agor, sy'n caniatáu mynediad at yr holl gyfeiriadau yn eich cronfa ddata RefWorks. Y peth cyntaf dylech ei wneud yw dewis eich **Arddull Gyfeirio**. Rydych yn gwneud hyn drwy sgrolio i lawr y dewisiadau sy'n ymddangos yn y bocs bach wrth ochr yr eicon 'Style' ar y rhuban.



Gallwch ddewis ffolder penodol a phori trwyddi i ddod o hyd i awdur penodol.

Yn yr enghraifft hon dewiswyd y ffolder 'hyder' a chliciwyd ar yr awdur Greene, J. i fewnosod y cyfeiriad hwnnw.



Os ydych angen cyfeirio at fwy nag un ffynhonnell ar unwaith, cliciwch ar y cyfeiriad cyntaf sydd ei angen arnoch yna yn y maes **Compose Citation** maes ar waelod y bocs.

Cliciwch ar yr **arwydd +** a dewiswch y cyfeiriad nesaf. Pan fyddwch wedi dewis eich holl gyfeiriadau cliciwch ar **OK**

Gall Write-N-Cite hefyd fewnosod cyfeiriadau fel troednodiadau. I greu troednodyn dewiswch **Insert Citation** yna **Insert New.** Dewiswch y ffynhonnell sydd ei hangen arnoch ac yna ticiwch y blwch **Make Footnote** a chliciwch **OK.** Bydd hyn yn creu troednodyn ac yn gosod y wybodaeth am y cyfeiriad ynddo ar waelod y dudalen.



I fewnosod rhifau tudalennau ar gyfer eich cyfeiriad, yn y **suffix box** teipiwch eich rhif tudalen gan gofio gadael bwlch a defnyddiwch p.

e.e. p.37

I ychwanegu llyfryddiaeth yn gyntaf gosodwch y cyrchydd lle rydych am i'r llyfryddiaeth ymddangos, ac yna cliciwch ar **Bibliography Options**

Dewiswch **Insert Bibliography** bydd eich llyfryddiaeth yn ymddangos wedi ei fformatio

This is my document and I am going to insert a citation here (Burtner & Kennedy, 2010; Cau & Navarro, 2003) and I will write some more and insert more citations (Delahunt, Stehbens, Gilbert-Barness, & Shozawa, 2000) and even more here(Kudlow, Kennedy, & Monnat, 2007; Merideth et al., 2008)

References

Burtner, C. R., & Kennedy, B. K. (2010). Progeria syndromes and ageing: What is the connection? *Nature Reviews.Molecular Cell Biology, 11*(8), 567-78. doi: 10.1038/nrm2944

Cau, P., & Navarro, C. (2003). Lamin A truncation in hutchinson-gilford progeria. *Science, 300*(5628), 2055-2055. Retrieved from http://search.proquest.com/docview/213593799?accountid=131239

3. Cysylltiadau gwe defnyddiol, tiwtorialau a chymorth

Mae tiwtorialau a chymorth pellach ar gael yn y cyfeiriadau canlynol

RefWorks Write-N-Cite 4: Installing & Logging In

www.youtube.com/watch?v=lL_OyAJLpPI

RefWorks Write-N-Cite 4: The Basics: Inserting Citations & Creating Bibliographies

www.youtube.com/watch?v=um5oOxJjXAk

Manylion cyswllt ar gyfer help

Celfyddydau a'r Dyniaethau
Jenny Greene. Ebost: j.greene@bangor.ac.uk . ☎ 01248 383572

Busnes, y Gyfraith, Addysg a Gwyddorau
Mairwen Owen. Ebost: mairwen.owen@bangor.ac.uk ☎ 01248 382915

Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad
Yasmin Noorani. Ebost: y.noorani@bangor.ac.uk ☎01248 388589

Gwyddorau Naturiol
Vashti Zarach. Ebost: v.zarach@bangor.ac.uk ☎01248 388826

Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol
Beth Hall Ebost: b.hall@bangor.ac.uk ☎ 01248 382081